Enw




DARLLENWCH
Exodus 19 a 20


*Mae'r stori hon yn sôn am:*
**Rheolau Duw.**

## Stori 3 Duw'n rhoi gorchmynion

Cyrhaeddodd yr Israeliaid wrth droed mynydd mawr o'r enw Sinai. Aeth Moses i fyny i'r mynydd. Gwelwyd taranau a mellt, yn ogystal â niwl trwchus a thân. Daeth ofn mawr ar bawb.





**Ysgrifennwch enw'r mynydd yn y bylchau oddi tano.**



Ond digwyddodd y peth rhyfeddaf - daeth DUW yno i gwrdd â Moses. Rhoddodd Duw Ei gyfreithiau, neu Ei reolau iddo. Roedd y cyfreithiau hyn yn mynd i helpu'r Israeliaid i ddeall sut roedd Duw yn disgwyl iddyn nhw ymddwyn. "Y Deg Gorchymyn" yw'r enw a roddwn ni ar y cyfreithiau hyn fel arfer.

Pan fydd gennym neges bwysig i'w rhoi i rywun, byddwn yn ei hysgrifennu bob tro. Dyna beth wnaeth Duw! Ysgrifennodd Ei reolau ar ddwy garreg fawr a'u rhoi i Moses.




Roedd cyfraith Duw yn dweud y dylai'r bobl garu Duw yn fwy na dim byd arall, a'u bod i garu ei gilydd. Does dim un ohonom ni'n gallu cadw cyfreithiau Duw yn berffaith. Mae pob un ohonom wedi methu. Rydym ni'n bechaduriaid yng ngolwg Duw. Ond mae Ef yn ein caru bob un. Rhoddodd Ei Fab, yr Arglwydd Iesu, i farw drosom. Ni thorrodd yr Arglwydd Iesu unrhyw un o orchmynion Duw. Pan fyddwn yn credu Ynddo Ef, ac yn Ei dderbyn fel ein Gwaredwr, yna bydd Duw yn maddau i ni am dorri Ei orchmynion.

**Lliwiwch y geiriau.**

"Mae pawb wedi pechu."